Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr William Bramble
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

**Cyfeirnod:** 2998A2022

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2022

Annwyl Will,

# Asesiad Sicrwydd a Risg – diweddariad ar y cynnydd

Yn dilyn ein cyfarfod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynharach eleni fe ddwedom ni y byddem yn adrodd yn ôl yn fwy ffurfiol ar rai agweddau penodol ar ein gwaith asesu sicrwydd a risg yr ydym wedi'i wneud. Mae'r llythyr hwn yn darparu diweddariad ar y cynnydd o ran trefniadau'r Cyngor ar gyfer

1. adfer o'r pandemig; a
2. ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fe wnaed y gwaith hwn fel rhan o'n prosiect Asesiad Sicrwydd a Risg (ASR) 2021-22 i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol[1].

[1] Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys dan adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd fod yn sail i astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian dan adran 41 Deddf 2004, a/neu archwiliad a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn cydnabod bod gwaith y Cyngor i adfer o’r pandemig a’i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynd rhagddynt yn barhaus. Mae’r adborth hwn yn darparu diweddariad ar adeg benodol mewn amser fel rhan o’r asesiad sicrwydd a risg o’r cynnydd gyda threfniadau’r Cyngor yn y meysydd hyn.

## 1. Adfer o’r pandemig

### Yr hyn a wnaethom

Trwy gydol pandemig COVID-19 mae Archwilio Cymru wedi parhau i gwrdd â chysylltiadau allweddol y Cyngor yn rheolaidd i wneud gwaith sicrwydd ar ymateb y Cyngor i’r pandemig a darparu adborth mewn amser real ar gyfer y Cyngor.

### Yr hyn a ganfuom

Mae’r Cyngor wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a rhoi cymorth ychwanegol i’w gymunedau yn ystod y pandemig ac wedi addasu ei drefniadau llywodraethu i hwyluso’r prosesau penderfynu cyflym angenrheidiol. Rydym wedi gallu gweld cydweithio effeithiol ar draws adrannau ac ymrwymiad amlwg gan swyddogion a chynghorwyr i gydweithio er budd pobl Sir Benfro.

## 2. Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

### Yr hyn a wnaethom

Fe gynhaliom ni ein hasesiad o waith y Cyngor i ymateb i ofynion allweddol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng mis Ionawr 2022 a mis Ebrill 2022. Cafodd y dystiolaeth ei chasglu trwy gyfweliadau ac adolygiadau o ddogfennau ac roedd yn tynnu hefyd ar ganfyddiadau perthnasol o’n gwaith parhaus a diweddar arall yn y Cyngor. Fe wnaeth ein gwaith fwrw golwg ar y trefniadau y mae’r Cyngor yn eu rhoi ar waith i ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nid oedd y gwaith yn asesiad o effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

### Yr hyn a ganfuom

- **Trefniadau ar gyfer Hunanasesu ac Asesiadau Panel**

Yn sgîl blaenoriaethau eraill sy’n cystadlu â’i gilydd dim ond yn ddiweddar y mae’r Cyngor wedi cytuno ar ei ddull ar gyfer sut y mae’n cynnig cynnal ei hunanasesiad. Mae ei ddull yn seiliedig ar nifer o egwyddorion trosfwaol allweddol ac yn cynnwys

fframwaith lefel-uchel i gasglu'r dystiolaeth ar gyfer yr hunanasesiad. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd y dull yn esblygu dros amser ond am y flwyddyn gyntaf hon bydd yn defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli'n barod.

I gynorthwyo swyddogion ac Aelodau sy'n cynnal yr asesiadau, mae rhai cynghorau wedi datblygu offer corfforaethol penodol, megis llyfrynnau cyfarwyddyd, allbynnau enghreifftiol a gweithgorau i rannu arfer gorau a sicrhau dull cyson. Dylai'r Cyngor ystyried a fyddai cymorth corfforaethol tebyg yn cryfhau ei drefniadau hunanasesu yntau.

Mae'r Cyngor yn bwriadu cynhyrchu allbwn hunanasesu y bydd yn ymgynghori yn ei gylch ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu arno ym mis Gorffennaf a chyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2022. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r hunanasesiad hwn i helpu i oleuo'i Strategaeth Gorfforaethol newydd, y mae'n bwriadu ei rhoi ar waith yn hydref 2022.

Yn wreiddiol, roedd y Cyngor wedi bwriadu cynnal Asesiad Panel peilot ym mis Chwefror 2022; fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amser a blaenoriaethau eraill a oedd yn cystadlu â'i gilydd, fe benderfynodd na fyddai hyn yn digwydd. Mae'r Cyngor yn bwriadu penderfynu ar drefniadau ac amseriad yr Asesiad Panel allanol sy'n ofynnol dan y Ddeddf newydd ar ôl etholiad mis Mai 2022.

- **Trefniant ar gyfer y Ddyletswydd Ymgynghori a'r Strategaeth Cyfranogi**

Er bod y Cyngor wedi cydnabod bod dyletswydd arno i ymgynghori â'r ymgyngoreion statudol ynghylch ei hunanasesiad a'i fod wedi trefnu cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ôl iddo fod gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2022, mae'n dal i fod wrthi'n datblygu'r union fanylion o ran sut y bydd yn ei gynnal.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor i baratoi ei strategaeth cyfranogi. Mae'r gweithgor hwn wedi paratoi cynllun i ddatblygu'r strategaeth cyfranogi, y mae'n bwriadu ei ddylunio a'i fabwysiadu yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a dinasyddion yn ystod 2022. Wrth iddo ddatblygu'r strategaeth, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymgorffori'r ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid a dinasyddion sy'n ofynnol dan y trefniadau hunanasesu newydd.

- **Trefniadau ar gyfer y newidiadau i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cyfansoddiad newydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Chwe chynghorydd a thri aelod lleyg fydd Aelodaeth y Pwyllgor. Mae'r tri aelod lleyg wedi cael eu recriwtio a'u penodi. Mae'r Cyngor wedi datblygu cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'n gweithio gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd y Pwyllgor. Bydd yr hyfforddiant hwn yn digwydd ym mis Gorffennaf 2022.

- **Trefniadau ar gyfer sefydlu Cydbwyllgorau Corfforedig**

Sefydlwyd Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru ar 13 Ionawr 2022. Y partneriaid ar y pwyllgor hwn yw: Cynghorau Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Gâr a Sir Benfro, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Fe wnaed penderfyniadau statudol allweddol yn y cyfarfod cychwynnol hwnnw, gan gynnwys cytuno ar y cyfansoddiad a gofynion statudol eraill megis y rhai sy’n ymwneud â throsolwg a chraffu. Cafodd ei gyllideb ddrafft ei chymeradwyo yn un o gyfarfodydd diweddarach Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru ar 25 Ionawr 2022.

Mae Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru wedi cael ei drefnu ar sail strwythur is-bwyllgorau ar gyfer meysydd cyfrifoldeb allweddol. Fodd bynnag, fe wnaed penderfyniad i beidio ag integreiddio rhaglenni datblygu economaidd rhanbarthol eraill, megis y Fargen Ddinesig, fel rhan o Gydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru, ar yr adeg hon, i osgoi unrhyw darfu ar gyflawni’r Fargen Ddinesig.

- **Defnyddio’r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Nid yw’r Cyngor yn defnyddio’r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar hyn o bryd a dywedodd wrthym fod y pŵer newydd yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar y modd y mae’r Cyngor yn gweithio yn y tymor byr. Fodd bynnag, mae’r Cyngor yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth sy’n esblygu, ac mae’n archwilio sut y gallai’r pŵer gefnogi prosiectau mwy arloesol a thrawsnewidiol yn y dyfodol.

Mae’r Cyngor yn meddwl y gallai’r pŵer newydd gael effaith fwy ar fentrau a phrosiectau a gyflawnir yn y dyfodol gan Gynghorau Tref a Chymuned, ac mae gwaith y Cyngor i’w cynorthwyo gyda hyn yn dal i ddatblygu.

Mae’r llythyr hwn yn rhan o’r adborth ar ein gwaith Asesiad Sicrwydd a Risg. Byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad maes o law ar ddau faes pwnc pellach: lleihau carbon a diweddariad ar gynaliadwyedd ariannol. Bwriedir cyflwyno adroddiadau ar y gwaith yn y ddau faes yma yn haf 2022.

Hoffwch achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a’ch swyddogion am y gefnogaeth barhaus yr ydych yn ei rhoi i’n galluogi i wneud ein gwaith. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio’n gadarnhaol gyda chi yn y dyfodol.

Yn gywir,

Alison Lewis
**Arweinydd Archwilio**